# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## PAPUR YMGYNGHORI AR WERTH GORAU A LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG

### Diben

1. Cyflwyno'r papur ymgynghori ar Werth Gorau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

### Crynodeb

2. Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno'i sylwadau ar y papur ymgynghori **(gweler Atodiad 1)**, ac i nodi'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r cyfarwyddyd terfynol i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

### Amseru

3. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori ar 22 Chwefror, a'r dyddiad cau ar gyfer yr ymatebion yw 23 Ebrill. Bwriedir cyhoeddi'r cyfarwyddyd terfynol i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gynnar ym mis Mehefin.

### Cefndir

4. Daeth Gwerth Gorau yn ofyniad statudol ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, a chyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddyd i awdurdodau lleol ar sut i gydymffurfio â'r gofynion hynny ym mis Mawrth 2000. Sefydlwyd Gweithgor Gwerth Gorau Tai ym mis Rhagfyr 1998, i oruchwylio'r modd yr oedd Gwerth Gorau'n cael ei roi ar waith drwy'r holl sector tai cymdeithasol.

5. Ym mis Medi 2000, sefydlwyd is-grwp o'r Gweithgor Gwerth Gorau Tai, er mwyn cynhyrchu papur ymgynghori a chyfarwyddyd penodol ar Werth Gorau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Ym mis Hydref, hysbyswyd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o fwriad y Cynulliad Cenedlaethol i gyhoeddi cyfarwyddyd Gwerth Gorau yn ystod 2001/2. Hefyd, pwysleisiwyd yr ymrwymiad i osod Gwerth Gorau ar waith ar gyfer yr holl dai cymdeithasol yng

Nghymru yn ‘Cartrefi Gwell i Bobl Cymru’, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr.

## Y cynigion

6. Mae’r papur ymgynghori wedi cael ei ddosbarthu i’r holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, yr holl awdurdodau lleol, cyrff cynrychioliadol, ac amrediad o asiantaethau eraill sy’n gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, neu sydd â diddordeb yn eu gweithgareddau. (Ceir rhestr gyflawn o’r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn atodiad 2).

7. Lluniwyd y papur er mwyn datblygu amcanion Gwerth Gorau ymhellach, sef hyrwyddo gwelliant parhaus yn y modd y cyflwynir gwasanaethau, cynyddu dylanwad tenantiaid ar y modd y cyflwynir gwasanaethau a darparu gwasanaethau cost-effeithiol, effeithlon ac effeithiol. Mae’r papur hefyd yn pwysleisio’r angen i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ymgynghori ag awdurdodau lleol wrth lunio’u rhaglenni, a chydweithio ag unrhyw adolygiadau gan awdurdodau lleol sy’n effeithio ar eu gwaith.

## Y Pum Elfen Hanfodol

8. Ar y cyfan, nid yw’r cynigion yn rhai manwl, ond maent yn cynnwys pum elfen hanfodol. Disgwylir i’r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddatblygu:

- Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau blynyddol, i’w ddosbarthu i’r tenantiaid, cyfranddeiliaid a’r gymuned. Dylai’r Cynllun edrych yn ôl ar y perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac ymlaen ar y targedau y mae’r corff yn bwriadu’u cyrraedd yn ystod y flwyddyn neu’r blynyddoedd i ddod.
- Methodoleg glir ac effeithiol ar gyfer adolygu eu gwasanaethau, eu gweithgareddau a’u prosesau, gan ddefnyddio egwyddorion Gwerth Gorau: Herio, Ymgynghori, Cymharu a Chystadlu.
- Rhaglen dreigl o adolygiadau gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar fusnes y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cael eu hadolygu o fewn cyfnod o ddim mwy na 5 mlynedd.
- Cytundeb neu Gytundebau Cyfranogiad Tenantiaid, yn nodi sut y bydd yn rhoi rhan i’w denantiaid yn ei weithgareddau, a pha adnoddau a gynigir er mwyn cefnogi hyn. (Eisoes, ym mis Chwefror 2000, hysbyswyd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig bod disgwyl iddynt wneud hyn).
- Ffyrdd clir o fesur ac arfarnu boddhad cwsmeriaid, i ategu’r trefniadau ar gyfer rhoi rhan i’r tenantiaid, yn unol â’r hyn a nodir yn y Cytundeb(au).

## Elfennau eraill

9. Mae’r cynigion hefyd yn nodi bod disgwyl i’r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddatblygu mesurau perfformiad sy’n ystyried y Dangosyddion Perfformiad a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Hefyd, bydd yn rhaid i’r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig bennu dangosyddion lleol, drwy ymgynghori â thenantiaid, partneriaid meincnodi, ac eraill. Bydd y Cynulliad yn annog yr holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i anelu at gyrraedd y safonau a gyflawnir gan y 25% sy’n perfformio orau.

10. Argymhellir y dylai’r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lunio ‘Cynlluniau Gweithredu Gwerth Gorau’, yn nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer cyd-drefnu ac adrodd, rheoli’r project, rhoi rhan i’r staff, cyfathrebu a chydweithio â phreswylwyr, rheoli risg, a gwasanaethau hyfforddiant a chefnogaeth. Bydd yn rhaid i’r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddyfeisio ‘arfau’ ar gyfer cynnal eu hadolygiadau gwasanaeth.

11. Mae’r papur ymgynghori yn awgrymu’r amserlen a ganlyn i’r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fabwysiadu eu fframwaith Gwerth Gorau:

- *Erbyn 1.4.01:* Rhaid i’r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod wedi rhoi eu Cytundeb(au) Tenantiaid ar waith yn llawn
- *Erbyn 1.4.02*: Rhaid i’r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod wedi datblygu’u methodoleg, eu rhaglen adolygu gwasanaethau, a’u mecanweithiau ar gyfer mesur ac arfarnu boddhad cwsmeriaid
- *Erbyn 1.7.02:* Rhaid i’r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod wedi cyhoeddi eu Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau cyntaf

12. Cynigir y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol gefnogi’r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn nifer o ffyrdd, wrth iddynt roi Gwerth Gorau ar waith, gan gynnwys cynnal seminarau ymgynghori, dyfarnu grantiau Dyfeisgarwch ac Ymarfer Da (Adrannau 16 / 87) i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a grantiau i hyrwyddo ymarfer da.

**Rheoleiddio ac Awdit**

13. Bob pum mlynedd, cynhelir archwiliadau awdit ar berfformiad y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Diben y rhain yw sicrhau bod y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cydymffurfio â’r ‘Gofynion Rheoleiddio’, sef isafswm safon y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae’r papur ymgynghori hwn yn cynnig y dylid cadw’r Gofynion Rheoleiddio. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu cynnwys pum elfen hanfodol y

cyfarwyddyd Gwerth Gorau fel rhan o'r Gofynion Rheoleiddio erbyn 2002/3.

14. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn adolygu'r modd y mae'n rheoleiddio'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ystod 2001/2. Nes y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, y Gofynion Rheoleiddio presennol fydd y meini prawf ar gyfer yr awdit a'r mesur ar gyfer sicrhau bod y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cydymffurfio. Er hyn, asesir cynnydd pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig gyda Gwerth Gorau yn ystod yr ymweliadau awdit. Wrth benderfynu ar sut i gynnal awdit ar Werth Gorau, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn asesu'r mesurau dyfeisgar a gyflwynwyd gan y Comisiwn Archwilio, e.e. adrodd yn agored, ac asesu boddhad y cwsmeriaid.

**Materion ar gyfer Ymgynghori**

15. Rydym wedi gofyn am sylwadau ar holl agweddau'r papur ymgynghori. Fodd bynnag, holwyd wyth cwestiwn penodol, rhai wedi'u cyfeirio'n benodol at Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno cyflwyno sylwadau'n benodol ar y rhain:

(i) A oes gennych sylwadau ar ba Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig y dylai'r cyfarwyddyd eu cynnwys? A ddylai'r cyfarwyddyd fod yn gymwys ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig â chanddynt lai na 250 o gartrefi?

(ii) A oes gennych unrhyw farn ar bum elfen hanfodol y fframwaith? A ydynt yn briodol? A ydynt yn ddigonol?

(iii) A oes gennych fel Landlord Cymdeithasol eisoes fecanwaith ar gyfer adolygu gwasanaethau? A yw'r corff yn glir ynghylch sut y mae angen ei addasu os o gwbl er mwyn bodloni egwyddorion Gwerth Gorau?

(iv) A fyddech chi'n croesawu gweld gwasanaeth cyffredin ar gyfer gwneud arolygon boddhad cwsmeriaid yn cael ei ddatblygu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cymru?

(v) Pa Ddangosyddion Perfformiad y byddech chi'n eu hystyried yn fuddiol i gynorthwyo proses Gwerth Gorau ar gyfer cymharu, gosod targedau, a dangos bod y Landlord Cymdeithasol yn parhau i wella, ac ar gyfer rhoi adroddiadau i'w denantiaid a'i gwsmeriaid?

(vi) A oes gennych unrhyw sylwadau am sut y gall Gwerth Gorau gael ei integreiddio â gwaith presennol y corff ar gyfer sicrhau gwelliannau parhaus?

(vii) A oes gennych unrhyw sylwadau am yr amserlen arfaethedig ar gyfer rhoi Gwerth Gorau ar waith?

(viii) Beth arall y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhesymol ei wneud er mwyn helpu Landlordiaid Cymdeithasol i roi Gwerth Gorau ar waith?

**Cydymffurfio**

16. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau o dan Adran 75 o Ddeddf Cymdeithasau Tai 1985, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau Tai 1988 a 1996, ac o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i sicrhau bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cyflawni'u swyddogaethau'n briodol, ac i oruchwylio a rheoli eu gwaith. Mae ganddo bwerau hefyd o dan Adran 36 o Ddeddf Tai 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i gyhoeddi canllawiau'n ymwneud â rheolaeth y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar eu tai.

17. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb yn deillio o'r papur.

18. Bydd costau cydymffurfio'r Landlordiaid wrth ymateb i ofynion Gwerth Gorau yn cael eu cydbwyso ymhen amser gan yr arbedion effeithlonrwydd a ddaw yn sgil gwerth gorau. Rydym wedi ymgynghori â'r Grwp Cyllid, ac mae'n fodlon ag agweddau ariannol y papur.

19. Bydd y cyfarwyddyd arfaethedig yn annog Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynnal adolygiadau ‘trawsbynciol’, er enghraifft, i edrych ar holl ystod y gwasanaethau ar gyfer grwp arbennig o gwsmeriaid neu denantiad mewn ardal benodol.

## Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

20. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r papur ymgynghori, i gyflwyno sylwadau ar y cynigion ac i godi unrhyw faterion gyda’r Gweinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

**Enw Cyswllt:** Peter Owen

Y Gyfarwyddiaeth Dai (Est 5785)